NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Pembrolizumab ar gyfer canser yr ysgyfaint metastatig lle nad yw'r celloedd yn fach PD-L1-positif heb ei drin

18 Gorffennaf 2018

Mae pembrolizumab (Keytruda) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer canser yr ysgyfaint metastatig lle nad yw’r celloedd yn fach heb ei drin mewn oedolion os bydd y canlynol yn wir:

- mae eu tiwmor yn mynegi PD-L1 (gyda chyfran tiwmor 0 50% o leiaf) ac nid oes ganddo dderbynnydd ffactor twf epidermol (EGFR) – na mwtadiadau cinas lymffoma anaplastig (ALK) – positif.
- caiff pembrolizumab ei atal ar ôl 2 flynedd o driniaeth barhaus neu'n gynt os yw'r afiechyd wedi datblygu.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 0300 003 0555
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Macmillan, 0808 808 0000
- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3014-2

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights